



CFfi CYMRU WALES YFC

Sioe Frenhinol Amaethyddol Cymru
Royal Welsh Agricultural Show
Maes y Sioe | Showground, Llanellwedd

21-24/07/2025

Cystadlaethau a Rheolau
Competitions and Rules

Dyddiad Cau
Closing Date

02/07/2025





CYNNWYS | CONTENTS

	CYSTADLEUAETH / COMPETITION	TUDALEN / PAGE
1	ARDDANGOSFA FFEDERASIWN FEDERATION DISPLAY	4
2	CYSTADLEUAETHAU YR AELODAU MEMBERS' COMPETITIONS	6
3	CYSTADLEUAETH CNEIFIO DEFAID SHEEP SHEARING COMPETITION	11
4	TRIN GWLAN WOOL HANDLING	12
5	CANU SINGING	13
6	DAWNSIO DANCING	15
7	ARDDANGOSFA PRIF GYLCH MAIN RING DISPLAY	16
8	BARNU GWARTHEG HOLSTEIN HOLSTEIN CATTLE STOCK JUDGING	17
9	CYSTADLEUAETH GWISGO FYNY DRESSING UP COMPETITION	18
10	BARNU DEFAID WYNEBLAS CAERLŶR BLUEFACED LEICESTER SHEEP JUDGING	19
11	CYNNIG PROSIECT NEU YMGYRCH DIOGELWCH FFERM NEWYDD PITCH A NEW FARM SAFETY PROJECT OR CAMPAIGN	20
12a	TYNNU'R GELYN - BECHGYN A MERCHED TUG OF WAR - MENS AND LADIES	21
12b	TYNNU'R GELYN - IAU JUNIOR TUG OF WAR	23
13	GWAITH COED IAU JUNIOR WOODWORK	25
14	GWAITH COED WOODWORK	26
15	GÊM Y CENEDLAETHAU (IAU) GENERATION GAME (JUNIOR)	27
16	BARNU MOCH CYMREIG WELSH PIG STOCKJUDGING	28
17	ADLONIAANT LLONG FORDAITH CRUISE SHIP ENTERTAINMENT	29
18	RYGBI 7-BOB OCHR 7 A SIDE RUGBY	30
19	LLYFR LLOFFION SCRAPBOOK	33
20	HYRWYDDO ATYNIAD LLEOL NEU ARHOSIAD PROMOTE A LOCAL ATTRACTION OR STAYCATION	34
21	GÊM Y CENEDLAETHAU (HYN) GENERATION GAME (SENIOR)	35
22	GÊM Y CENEDLAETHAU (CADEIRYDDION SIR) COUNTY CHAIRMAN GENERATION GAME	36



THEMA

Teithio

Oed Cystadlu: Dylai pob aelod fod yn 28, 21, 18 neu 16 oed neu iau ar y 1af o Fedi 2024, oni bai y nodir fel arall yn y rheolau.

Nodir yr oedrannau cystadlu penodol o dan bob cystadleuaeth.

Bydd rhaid i bob cystadleuydd fod yn aelodau llawn o Glwb CFFI yng Nghymru sy'n gysylltiedig â CFFI Cymru neu FfCCFFI. Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr ddangos eu cardiau aelodaeth ar gyfer pob cystadleuaeth.

Bydd methu dangos cerdyn aelodaeth ddilys (â llun) yn arwain at gosb o £10. Ni chaniateir i aelodau gystadlu os nad yw eu henwau ar y rhestr o'r sawl sydd wedi talu i fod yn aelod o'r Ffederasiwn ac os na fyddant yn gallu dangos cerdyn aelodaeth ar ddechrau'r gystadleuaeth.

THEME

Travelling

Competing Age: All members should be 28, 21, 18 or 16 years of age or under on the 1st September 2024, unless specified otherwise in the the rules.

Specific competing ages are noted under each competition.

All competitors must be full members of a YFC Club based in Wales and affiliated to either Wales YFC or NFYFC. Competitors will be required to show their membership cards for all competitions.

Failure to produce a valid membership card (with photo) will result in a £10 penalty charge. Any member whose name is not listed as a current paid up member of the Federation and who cannot produce a membership card at the start of the competition will not be allowed to compete.



CYSTADLEUAETH 1

ARDDANGOSFA FFEDERASIWN

TEITL

Ar Wyliau

TÎM

Hyd at chwech aelod (28 mlwydd oed neu'n iau). Ni chaniateir mwy na phedwar aelod i lwyfannu a pharatoi'r arddangosfeydd. Caniateir i ddau aelod ychwanegol i godi'r ffrâm yn unig.

MESURIADAU

Caniateir y mesuriadau canlynol: 6' (1m 82.9 cm) o uchder; 6' (1m 82.9 cm) o led; 4'6" (1m 37.1 cm) o ddyfnder - uchafswm y mesuriadau allanol (gweler y rheolau cyffredinol ynglŷn â'r cosbau cysylltiedig ar gyfer arddangosfeydd sydd ddim yn bodloni'r gofynion maint angenrheidiol)

AMSER

Gweler y 'manyllion ynghylch yr amser a glustnodir i gyrraedd a chodi'r arddangosfa' a'r rheolau cyffredinol ynghylch cosbau am gyrraedd yn hwyr. Gellir datgymalu'r arddangosfeydd ar ol 3yp ar y 24ain o Orffennaf, 2025.

Caiff yr holl arddangosfeydd eu beirniadu ddydd Sul, 20fed o Orffennaf, am 4.15yp.

CYFLENWAD TRYDAN

Bydd un soced drydan ar gael ar gyfer pob arddangosfa yn Sioe Frenhinol Cymru, a chaniateir un wifren drydan yn unig i bob arddangosfa. Mae'n ofynnol fod unrhyw blygiau a ddefnyddir gan y cystadleuwyr wedi cael prawf PAT.

NODIADAU

Rhaid i bob aelod wisgo côt wen. Bydd y Ffederasiynau sy'n cymryd rhan yn gyfrifol am unrhyw labeli; gallant fod yn Gymraeg yn unig, yn Saesneg yn unig, neu'n ddwyieithog. Rhaid i'r holl adeiladu gael ei wneud gan yr aelodau. Dylai'r cystadleuwyr adael popeth yn yr arddangosfa dros gyfnod o bedwar diwrnod y Sioe, felly ni chaniateir unrhyw fwydydd darfodus. Mae'r cystadleuwyr yn gyfrifol am yr holl eitemau yn eu harddangosfa. Os gwelir fod unrhyw eitem yn dirywio yn ystod cyfnod y Sioe, bydd gan y stiwardiaid yr hawl i'w dynnu

COMPETITION 1

FEDERATION DISPLAY

TITLE

On Holiday

TEAM

Up to six members (28 years of age or under). No more than four members to stage and prepare displays. The two additional members are only permitted to erect the frame.

MEASUREMENTS

Space allowed 6' (1m 82.9 cm) high; 6' (1m 82.9 cm) wide; 4'6" (1m 37.1 cm) deep - maximum outside measurements (please see general rules regarding penalties for displays which do not meet the necessary size specification).

TIME

Please see the 'allocated time of arrival and erection details' for setting up period and general rules on penalties for late arrivals. Dismantling can take place after 3pm on the 24th July 2025.

All displays will be judged on Sunday, 20th July at 4.15 pm.

ELECTRIC

One electric socket will be available per display at the Royal Welsh Show, and only one trailing lead allowed from the display. It is a requirement that any plugs being used by competitors are PAT tested.

NOTES

All members must wear white coats. Participating Federations to be responsible for all labelling, this may be in English only, Welsh only, or bilingual. All construction to be made by members. All competitors to leave everything on display for the four days of the Show and therefore no perishable foods allowed. Competitors are responsible for all items on display. If any item is found to deteriorate over the Show period, stewards will be authorised to remove it. Federation Organisers will be responsible for co-ordinating the arranging and



oddi yno. Bydd Trefnyddion y Ffederasiynau yn gyfrifol am gydlynw'r gwaith o osod a datgymalu'r arddangosfa wedi'r Sioe. Tynnir marciau o'r cyfanswm terfynol os na fydd Ffederasiynau yn cadw at y rheol hon.

dismantling of the display after the Show. Marks will be deducted from final placing if Federations do not honour this rule.

Ni fydd safleoedd cyfartal yn cael eu caniatáu yn y gystadleuaeth hon.

No equal placings allowed in overall positions of this competition.

Ni ddylid defnyddio ffonau symudol wrth baratoi, cystadlu a gosod.

No mobile phones to be used during preparation, competition and setting up.

Bydd dirwyon i'r Ffederasiwn Sir os bydd UNRHYW ddeunydd yn cael ei adael ar ôl y Sioe Frenhinol, oni bai y trafodwyd yn flaenorol gyda CFFI Cymru.

There will be fines for the County Federation if ANY materials are left after the Royal Welsh, unless previously discussed with Wales YFC.

Rhaid i'r timau gofio y dylai'r arddangosfa fod yn addas i'w gweld gan blant a phobl o bob oedran.

Teams must remember that the exhibit should be suitable for viewing by all ages.

SYSTEM FARCIO

Dehongli'r thema	30
Saerniaeth y cefndir a'r llwyfannu	15
Ansawdd y cynnwys	20
Argraff a chyflwyniad cyffredinol	25
Defnydd o'r lle a ganiateir	10

Cyfanswm **100**

SCALE OF MARKS

Interpretation of theme	30
Workmanship of backing and staging	15
Quality of content	20
Overall impression and presentation	25
Use of space allowed	10

TOTAL **100**



CYSTADLEUAETH 2

CYSTADLEUAETH BLODAU

CYSTADLEUAETH YR AELODAU

Rhaid arddangos holl eitemau Cystadleuaeth yr Aelodau tan 3yp, ar ddydd Iau 25ain o Orffennaf. Bydd clirio arddangosfa cyn yr adeg hon yn arwain at dynnu'r marciau a roddwyd.

THEMA

Teithio

TÎM

Un aelod (21 mlwydd oed neu'n iau).

TASG

Paratowch arddangosfa i ddarlunio'r thema 'Teithio'. Rhaid i'r arddangosyn gynnwys eitem sy'n gysylltiedig â theithio, e.e. cês, fflag.

Sylwch: Gall aelodau ddefnyddio 'floral foam' (oasis), dewisiadau bioddiraddadwy a di-blastig micro neu ddewisiadau eraill wedi'u gwneud o ddeunyddiau naturiol.

COSTAU

Dim mwy na £30 (heb gynnwys y Dail). Dylid arddangos y costau yn ogystal â derbynebaw gwreiddiol.

ARDDANGOSFEYDD

Gall cystadleuwyr ddefnyddio cefnwrdd os dymunant, ond rhaid iddynt eu darparu eu hunain.

LLE GWEITHIO

Hanner bwrdd trestl – gofod gwaith.

Mesuriadau: Lled o 76cm x dyfnder o 60 cm x unrhyw uchder a ddymunant.

AMSER

1 awr a 5 munud ychwanegol i sicrhau nad yw'r trefniadau wedi cael eu hamharu wrth glirio.

NODIADAU

Ni ddylid defnyddio ffonau symudol wrth baratoi, cystadlu a gosod.

Eleni bydd y gystadleuaeth yn cael ei chynnal yn adran Garddwriaeth newydd y Sioe Frenhinol, ac nid ym Mhabell y CFFI.

COMPETITION 2

FLORAL COMPETITION

MEMBERS' COMPETITION

All exhibits in the Members' Competition to be on display until 3pm on Thursday 25th July. Removal of an exhibit before this time will result in the allocated marks being withdrawn.

THEME

Travelling

TEAM

One member (21 years of age or under).

TASK

Prepare an exhibit to depict the theme of 'Travelling'. The exhibit must include an item associated with travelling, e.g. suitcase, flag.

Please note: Members can use floral foam (oasis), biodegradable and micro plastic free alternatives or alternatives made from natural materials.

COSTINGS

Not to exceed £30 (excluding Foliage). Costings as well as original receipts to be displayed.

DISPLAY

Competitors are allowed to use back boards but are to supply these themselves.

WORK SPACE

Half a trestle table – working space.

Display space - 76cm wide x 60cm deep x unlimited height.

TIME

1 hour plus a further 5 minutes to check that arrangements have not been disturbed during cleaning up operations.

NOTES

No mobile phones to be used during preparation, competition and setting up.

This year the competition will be held in the new Horticulture section of the Royal Welsh Show, and not in the YFC Marquee.



Cyfanswm o 100 - i'w feirniadu yn unol â'r canllawiau (a amlinellir isod) a bennwyd gan Gymdeithas Genedlaethol y Cymdeithasau Gosod Blodau (N.A.F.A.S.). Gellir cael copïau o Lawlyfr Cystadlaethau NAFAS (trydydd rhifyn) gan NAFAS Enterprises Ltd, Osborne House, 12 Devonshire Square, Llundain, EC2M 4TE. Rhif ffôn: 02072475567.

1. Cadw at eiriad y gystadleuaeth.
2. Y deunydd planhigion yn amlycach na'r holl elfennau eraill.
3. Deunydd planhigion sy'n ddi-nam, mewn cyflwr da ac yn briodol.
4. Dehongliad clir o'r teitl a'r thema a ddewiswyd. Dylai deunydd y planhigion helpu i ddehongli'r thema a ddewiswyd heb ddibynnu'n llwyr ar yr ategolion.
5. Defnydd da o egwyddorion dylunio a'r lle a ganiateir. Y defnydd o gydbwysedd, graddfa, llinellau, lle, gwead a lliw yn cyfrannu at harmoni'r cyfanwaith.
6. Dylai unrhyw lieiniau bwrdd a sylfeini a ddefnyddir, yn ogystal â'r cynhwysydd ac unrhyw deitl, fod mewn cyflwr perffaith, yn addas i'r thema, a ddim yn amlycach na phopeth arall o ran maint neu liw.
7. Dylai ategolion, os yn eu defnyddio, fod mewn harmoni gyda gweddill yr arddangosfa a hynny ar raddfa gydag ef a'r ategolion eraill.

Total 100 marks - to be judged according to the guidelines (outlined below) laid down by the National Association of Flower Arrangement Societies (N.A.F.A.S.). Copies of the NAFAS Competitions Manual (third edition) may be obtained from NAFAS Enterprises Ltd, Osborne House, 12 Devonshire Square, London, EC2M 4TE. Tel: 02072475567.

1. Adherence to the competition wording.
2. Predominance of plant material over all other components.
3. Plant material that is unblemished, well conditioned and appropriate.
4. Clear interpretation of the title and chosen theme. Plant material should help to interpret the chosen theme without the sole reliance on accessories.
5. Good use of design principles and of the space allowed. The use of balance, scale, line, space, texture, and colour contribute to the total harmony.
6. Tablecloth and bases if used, as well as container and any title, in immaculate condition, suitable to the theme and not dominant in size or colour.
7. Accessories if used that are in harmony with the rest of the exhibit and that are in scale with it and with each other.



CYSTADLEUAETH COGINIO

CYSTADLEUAETH YR AELODAU

Rhaid arddangos holl eitemau Cystadleuaeth yr Aelodau tan 3yp, ar ddydd Iau 25ain o Orffennaf. Bydd clirio arddangosfa cyn yr adeg hon yn arwain at dynnu'r marciau a roddwyd.

THEMA

Pryd Traddodiadol y Wlad

TÎM

Dau aelod (16 mlwydd oed neu iau).

TASG

Tîm o 2 aelod i goginio pryd dau gwrs ar gyfer 2 person a osodwyd gan y beirniad. Rhoddir rhestr o gynhwysion a'r dull/rysâit ar y diwrnod i aelodau eu dilyn. Bydd un pryd yn sawrus ac un yn felys. Nid oes rhaid i'r ddwy pryd fod o'r un wlad.

Bydd CFFI Cymru yn darparu'r holl gynhwysion angenrheidiol gyda chostau heb fod yn fwy na £20. (siroedd i'w bilio am bob set o gynhwysion)

OFFER

Bydd rhestr o'r offer sydd ei angen yn cael ei ddosbarthu 1 wythnos cyn y gystadleuaeth, gan gynnwys prydau arddangos. Aelodau i ddod a halen a phupur.

Bydd popty trydan bach ar gael i bob tîm (cystadleuwyr i ddefnyddio'r popty a ddarperir).

AMSER

Caniateir awr i goginio, gan gynnwys arddangos y pryd yn yr alcof gwyn a ddarperir (68.5cm X 68.5cm X 61cm o uchder) (gellir gosod deunydd cefndir ac ategolion cyn i'r awr gychwyn ac ni fydd yn cael ei gynnwys yn yr amser).

Rhoddir 15 munud i ddarllen a deall y rysâit. Caniateir 1 awr i goginio'r rysâit - yn ogystal â phwyso a pharatoi'r cynhwysion. Caniateir 15 munud ychwanegol i aelodau gwblhau holiadur hylendid bwyd.

COOKERY COMPETITION

MEMBERS' COMPETITION

All exhibits in the Members' Competition to be on display until 3pm on Thursday 25th July. Removal of exhibit before this time will result in the allocated marks being withdrawn.

THEME

A Country's Traditional Dish

TEAM

Two members (16 years of age or under).

TASK

Team of 2 members to cook a two-course meal for 2 people set by the judge. Members will be given a list of ingredients and the method/recipe on the day for members to follow. One dish will be savoury and one will be sweet. Both dishes do not have to be from the same country.

Wales YFC will provide all necessary ingredients with costs not exceeding £20. (counties to be billed for each set of ingredients)

EQUIPMENT

A list of equipment needed will be circulated 1 week prior to the competition, including display dishes.

Members to bring salt and pepper.

A small electric cooker will be available per team (competitors to use the cooker provided).

TIME

One hour is allowed for cooking, including displaying the dishes in the white alcove provided (68.5cm X 68.5cm X 61cm high) (background material and accessories can be arranged before the hour starts and will not be included in the time).

15 minutes will be given to read and understand the recipe.

1 hour will be allowed to cook the recipe- as well as weigh and prepare the ingredients.

An additional 15 minutes will be allowed for members to complete a food hygiene questionnaire.



COSBAU AMSER

Os na fydd timau'n gorffen o fewn yr awr ar gyfer coginio (15 munud ychwanegol ar gyfer holiadur), bydd 1 pwynt y funud yn cael ei dynnu o'r sgôr terfynol.

LLE GWEITHIO

Un bwrdd trestl gan gynnwys lle i'r popty.

ARDDANGOSFA

Rhaid arddangos y pryd yn yr alcof gwyn a ddarperir (68.5cm x 68.5cm x 61cm o uchder) (gellir gosod deunydd cefndir ac ategolion cyn i'r awr gychwyn ac ni fydd yn cael ei gynnwys yn yr amser). Rhaid i'r arddangosfeydd fod o fewn y maint/le a ddarparir gan gynnwys unrhyw orchuddion neu leinin mewn/ar unrhyw lestri gweini/cynhwysyddion (cystadleuwyr i'w darparu). Gellir defnyddio ategolion sydd yn cydfynd a gweddill yr arddangosfa gyda gweddill yr arddangosfa a hynny ar raddfa gydag ef a'i gilydd, ond ddim yn flaenllaw. Os gwelir fod unrhyw eitem yn dirywio yn ystod cyfnod y sioe, bydd gan y stiwardiaid hawl i'w dynnu oddi yno.

NODIADAU

Ni ddylid defnyddio ffonau symudol wrth baratoi, cystadlu a gosod.

SYSTEM FARCIO

Gwaith Tîm a Dull	35
Cyflwyniad / Arddangosfa	15
Canlyniad terfynol yr eitem a baratowyd (lliw / blas / gwead / ayyb.)	40
Holiadur	10
CYFANSWM	100

TIME PENALTIES

Should teams not finish within the hour for cooking (additional 15 minutes for questionnaire), 1 point per minute will be deducted from the overall score.

WORK SPACE

One trestle table including cooker space.

DISPLAY

Meal to be displayed in the white alcove provided (68.5cm x 68.5cm x 61cm high) (backing material and accessories may be arranged by the competitors prior to the commencement of the one hour and will be outside of this time). All exhibits to be within the alcove size including any drapes or lining, in/on serving dishes/containers (competitors to supply). Accessories that are in harmony with the rest of the exhibit and that are in scale with it and each other, but not dominant, are allowed. If any item is found to deteriorate over the Show period, stewards will be authorised to remove it.

NOTES

No mobile phones to be used during preparation, competition and setting up.

SCALE OF MARKS

Teamwork and Method	35
Presentation / Display	15
Finished results of prepared item (colour /flavour / texture / etc.)	40
Questionnaire	10
TOTAL	100



CYSTADLEUAETH CREFFT

CYSTADLEUAETH YR AELODAU

Rhaid arddangos holl eitemau Cystadleuaeth yr Aelodau tan 3yp, ar ddydd Iau 25ain o Orffennaf. Bydd clirio arddangosfa cyn yr adeg hon yn arwain at dynnu'r marciau a roddwyd.

TÎM

Un aelod. (28 mlwydd oed neu iau).

TASG

Dyluniwch a chrëwch gofrodd o wlad o'ch dewis.

Bydd angen i gystadleuwyr ddarparu clip fideo yn dangos sut y gwnaethant greu eu cofrodd. Rhaid i'r clip fideo ddangos elfennau allweddol o weithgynhyrchu'r cofrodd a rhaid iddo fod o leiaf 2 funud ac uchafswm o 5 munud.

Bydd angen i gystadleuwyr gyflwyno cod QR i'w arddangos er mwyn i'r cyhoedd allu sganio a gwyllo'r fideo.

Ar ddiwrnod y gystadleuaeth gofynnir cwestiynau i'r aelod am y crefftwaith.

Ni ddylai'r fideo fod yn sioe sleidiau o ddelweddau, rhaid iddo fod yn gyfres o glipiau fideo amser real, neu'n fideo treigl amser i ddangos yr aelod sy'n gweithgynhyrchu'r eitem.

MESURIADAU

Lle arddangos – Hanner bwrdd trestl i gynnwys yr eitem orffenedig a'r cod QR.

COSTAU

Ni ddylai'r gost fod yn fwy na £20 - costau i'w harddangos. Bydd hygrededd cost yn cael ei ystyried gan y barnwr.

AMSER

15 munud i arddangos yr arddangosfa.

NODIADAU

Dylid anfon yr eitem i Ganolfan CFFI Cymru erbyn y dyddiad penodedig yn barod i'w feirniadu cyn y Sioe.

Ni ddylid defnyddio ffonau symudol wrth baratoi, cystadlu a gosod.

CRAFT COMPETITION

MEMBERS' COMPETITION

All exhibits in the Members' Competition to be on display until 3pm on Thursday 25th July. Removal of exhibit before this time will result in the allocated marks being withdrawn.

TEAM

One member. (28 years of age or under).

TASK

Design and create a souvenir from a country of your choice.

Competitors will need to provide a video clip demonstrating how they created their souvenir. The video clip must show key elements of the manufacture of the souvenir and must be a minimum of 2 minutes and maximum of 5 minutes.

Competitors will need to present a QR code to be displayed for the public to scan and watch the video.

On competition day the member will be asked questions on the workmanship.

The video must not be a slideshow of images, it must be a series of real-time video clips, or a time-lapse video to demonstrate the member manufacturing the item.

MEASUREMENTS

Display space – Half a trestle table to include the finished item and QR code.

COSTINGS

Not to exceed £20 in total- costings to be displayed. Credability of cost will be considered by the judge.

TIME

15 minutes to display the exhibit.

NOTES

Item and video to be submitted to the Wales YFC centre, ready for judging prior to the Show (date TBC).

No mobile phones to be used during competition.



SYSTEM FARCIO

Gwreiddioldeb a dewis crefft	15
Cynllun	15
Saerŷiaeth	30
Cyflwyniad a golwg yr eitem orffenedig	15
Cynnwys y Fideo	15
Cwestiynau'r Beirniaid	10
CYFANSWM	100

SCALE OF MARKS

Originality and choice of craft used	15
Design	15
Workmanship	30
Presentation and appearance of finished item	15
Content of Video	15
Judges Questions	10
TOTAL	100



CYSTADLEUAETH 3

CYSTADLEUAETH CNEIFIO DEFAID

TÎM

Dau aelod (un 28 ac un 21 oed neu iau).

TASG

Aelodau i gneifio dau oen yr un.

NODIADAU

Mae'n rhaid i gystadleuwyr ddarparu eu pen cneifio eu hunain.

Rhaid i bob cystadleuydd sy'n cystadlu yng nghystadleuaeth cneifio CFFI fod wedi pasio Prawf Medrusrwydd NPTC neu Wobr Glas y Bwrdd Gwlân, **rhaid danfon copi o'r dystysgrif i Swyddfa CFFI Cymru cyn y sioe.**

DYDDIADAU PWYSIG

Cyfarfod Staff cyn y sioe (dyddiad i'w gadarnhau). Dylid danfon Tystysgrif y Wobr Glas / Prawf Medrusrwydd i Ganolfan CFFI Cymru erbyn y dyddiad penodedig.

SYSTEM FARCIO

Bydd rheolau a system farcio BISCA 2025 yn weithredol ar gyfer y gystadleuaeth.

COMPETITION 3

SHEEP SHEARING COMPETITION

TEAM

Two members (one 28 and one 21 years of age or under).

TASK

Members to shear two lambs each.

NOTES

Competitors must provide their own shearing heads.

All members must have passed either a NPTC Proficiency Test or a BWMB Blue Seal in Sheep Shearing to compete in the YFC Sheep Shearing Competition, a copy of the certificate **must be supplied to the Wales YFC office in advance of the show.**

IMPORTANT DATE

Pre-show Staff Meeting (date to be confirmed) – Blue Seal / Proficiency certificate or number to be submitted to the Wales YFC Centre.

SCORING SYSTEM

The BISCA Rules and marking system for 2025 will apply.



CYSTADLEUAETH 4

TRIN GWLÂN

TÎM

Un aelod (28 mlwydd oed neu iau).

TASG

Un aelod i drîn dau gnu o wîlan.

NODIADAU

Cystadleuwyr i fod yn gyfrifol am ddarparu eu hysgubell (brwsh) eu hunain.

SYSTEM FARCIO

Bydd rheolau a system farcio BISCA 2025 yn weithredol ar gyfer y gystadleuaeth.

COMPETITION 4

WOOL HANDLING

TEAM

One member (28 years of age or under).

TASK

One member to handle two fleeces.

NOTES

Competitors are responsible for supplying their own broom.

SCORING SYSTEM

The BISCA Rules and marking system for 2025 will apply.



CYSTADLEUAETH 5

CANU

TÎM

UNIGOL – Un aelod (28 mlwydd oed neu iau).

GRŴP – Hyd at 6 aelod a dim llai na 2 aelod (28 mlwydd oed neu iau).

TASG

Unigol – Cân neu gymysgedd o ganeuon gyda'r thema 'Trafnidiaeth'.

Grŵp – Cân neu gymysgedd o ganeuon gyda'r thema 'O Amgylch y Byd'

CYFEILIANT

Traciau Cefndirol yn unig ar ffurf MP3. Ni chaniateir cyfeiliant byw.

AMSER

Caniateir uchafswm o 5 munud i bob adran.

Caniateir isafswm o 2 munud i bob adran.

COSB AMSER

Hyd at 15 eiliad dros neu o dan amser – 2 farc cosb; Hyd at 30 eiliad dros neu o dan amser – 5 marc cosb; Ynghyd a 5 marc ychwanegol am bob 15 eiliad ar ôl hynny.

OFFER

Dylai aelodau ddarparu ffeiliau MP3 priodol drwy WeTransfer neu ar ffon USB a ddylai gynnwys lleisiau cefndir yn unig (bydd technegydd y CFFI yn gyfrifol am chwarae'r ffeiliau MP3).

Meicroffonau – Bydd gan y cystadleuwyr ddewis o hyd at chwech meic llaw neu feicroffon radio.

DYDDIADAU PWYSIG

Cyfarfod staff cyn y sioe (dyddiad i'w gadarnhau) – rhaid i ffeiliau cerddoriaeth gyrraedd Canolfan CFFI Cymru erbyn y dyddiad hwn (dylid e-bostio'r ffeiliau MP3 at gwybodaeth@yfc-wales.org.uk dros WeTransfer neu ar ffon USB).

SYSTEM FARCIO

Perfformio	35
Lleisiol	35
Gwisg	10
Effaith Gyffredinol	20
CYFANSWM	100

COMPETITION 5

SINGING

TEAM

Solo - One member (28 years of age or under).

Group – Up to 6 singers but no less than 2 singers (28 years of age or under).

TASK

Solo section – A song or medley using songs to the theme 'Transport'.

Group – A song or medley of songs with the theme 'Around the World'

ACCOMPANIMENT

Backing track only in MP3 Format. No live accompaniment is allowed.

TIME

Maximum time allowed for each section is 5 minutes.

Minimum time allowed for each section is 2 minutes.

TIME PENALTIES

Up to 15 seconds overtime or undertime - 2 penalty marks; Up to 30 seconds overtime or undertime - 5 penalty marks; And a further 5 penalty marks will be deducted for every 15 seconds thereafter.

EQUIPMENT

Members to supply the Mp3 files via WeTransfer or on USB stick which should include backing vocals only (Mp3's will be operated by the YFC technician).

Microphones – Competitors will have the choice of up to six hand held radio mics or headset radio mics.

IMPORTANT DATE

Pre-show staff meeting (date to be confirmed) – Submission of music files to Wales YFC Centre (mp3 files to be e-mailed to information@yfc-wales.org.uk via WeTransfer or submitted on a USB stick).

SCALE OF MARKS

Performance	35
Vocal	35
Costume	10
Overall Effect	20
TOTAL	100



CYSTADLEUAETH 6

DAWNSIO

TÎM

Dwy ddawns; pob dawns i'w pherfformio gan grŵp o rhwng 4 ac 8 aelod (28 oed neu iau). Gall y ddwy ddawns gynnwys yr un dawnsywyr, neu ddawnsywyr gwahanol.

TASG

Dwy ddawns, rhaid i bob dawns gynnwys un arddull draddodiadol o ddawns o wlad o'ch dewis, ac unrhyw arddull cyferbyniol.

Bydd y sgorau o'r ddwy ddawns yn cael eu cyfuno i ddod o hyd i'r enillydd.

LLWYFAN

Darperir llwyfan – 20' X 20'.

AMSER

Caniateir uchafswm o 4 munud i bob trefn ddawns. Caniateir isafswm o 2 munud i bob trefn ddawns.

Cosb Amser

Hyd at 15 eiliad dros neu o dan amser – 2 farc cosb; Hyd at 30 eiliad dros neu o dan amser – 5 marc cosb; Ynghyd a 5 marc ychwanegol am bob 15 eiliad ar ôl hynny.

OFFER

Fydd technegydd CFFI Cymru yn gyfrifol am chwarae pob ffeil MP3. Dylai cystadleuwyr ddarparu ffeiliau MP3 priodol drwy WeTransfer neu ar ffon USB.

DYDDIADAU PWYSIG

Cyfarfod staff cyn y sioe (dyddiad i'w gadarnhau) – rhaid i ffeiliau cerddoriaeth gyrraedd Canolfan CFFI Cymru erbyn y dyddiad hwn (dylid e-bostio ffeiliau MP3 at gwybodaeth@yfc-wales.org.uk)

CYFEILIANT

Rhaid darpari Trac Cefndirol yn cynnwys unrhyw gerddoriaeth ar gyfer y gystadleuaeth.

SYSTEM FARCIO

Trefn Ddawns 1	50
Trefn Ddawns 2	50

CYFANSWM	100
-----------------	------------

COMPETITION 6

DANCING

TEAM

Two dances; each dance to be performed by a group of between 4 and 8 members (28 years of age or under). Both dances can include the same dancers, or different dancers.

TASK

Two dances, each dance must include one traditional style of dance from a country of your choice, and any contrasting style.

The scores from both dances will be combined to find the overall winner.

STAGE

A 20' x 20' stage will be provided.

TIME

Maximum time allowed for each dance routine is 4 minutes.

Minimum time allowed for each dance routine is 2 minutes.

Time Penalties

Up to 15 seconds overtime or undertime - 2 penalty marks; Up to 30 seconds overtime or undertime - 5 penalty marks; And a further 5 penalty marks will be deducted for every 15 seconds thereafter.

EQUIPMENT

The YFC technician will be responsible for playing all mp3's. Competitors to submit their MP3 files either via WeTransfer or on a USB stick.

IMPORTANT DATE

Pre-show staff meeting (date to be confirmed) – Submission of music file to Wales YFC Office (either on a USB stick or mp3 files to be e-mailed to information@yfc-wales.org.uk)

ACCOMPANIMENT

A backing track including all music to be used must be supplied to YFC Wales for the competition.

SCALE OF MARKS

Dance Routine 1	50
Dance Routine 2	50

TOTAL	100
--------------	------------



CYSTADLEUAETH 7

ARDDANGOSFA'R PRIF GYLCH
'O GWMPAS Y BYD'

TÎM

Tîm o hyd at 11 aelod yn cynnwys un cyflwynydd -
(pob aelod i fod yn 28 mlwydd oed neu iau).

TASG

Pob aelod o'r tîm i gymryd rhan mewn
arddangosfa sy'n darlunio'r thema 'O Gwmpas y
Byd'.

Un aelod o'r tîm, y cyflwynydd, i wneud
sylwebaeth byw ar yr arddangosfa. Bydd un
meicroffon llaw yn cael ei ddarparu ar gyfer y
sylwebaeth.

AMSER

Ni ddylai'r arddangosfa fod yn hirach na 5 munud.

Hyd at 15 eiliad dros amser - 2 farc cosb; Hyd at
30 eiliad dros amser - 5 marc cosb; Ynghyd a 5
marc ychwanegol am bob 15 eiliad ar ôl hynny.

SYSTEM FARCIO

Perfformiad	30
Gwreiddioldeb	20
Gwisg	10
Sylwebaeth	20
Effaith Gyffredinol	20
TOTAL	100

COMPETITION 7

MAIN RING DISPLAY
'AROUND THE WORLD'

TEAM

A Team of up to 11 members including one compere
(all members must be 28 years of age and under).

TASK

All members of the team to take part in a display
depicting the theme 'Around the World'.

One member of the team, the compere, will
commentate on the display. There will be one hand
held microphone available.

TIME

The display should be no longer than 5 minutes.

Up to 15 seconds overtime - 2 penalty marks; Up
to 30 seconds overtime - 5 penalty marks; And a
further 5 penalty marks will be deducted for every
15 seconds thereafter.

SCALE OF MARKS

Performance	30
Originality	20
Costumes	10
Commentary	20
Overall Effect	20
TOTAL	100



CYSTADLEUAETH 8

BARNU STOC GWARTHEG HOLSTEIN

TÎM

Pedwar aelod (un 28, un 21, un 18 ac un 16 mlwydd oed neu iau).

TASG

Cystadleuwyr 28 a 21 oed neu iau i osod a rhoi rhesymau ar ddau gylch o bedwar o wartheg.

Cystadleuwyr 18 oed neu iau i osod dau gylch o bedwar a rhoi rhesymau ar un cylch o bedwar o wartheg (cylch i'w benodi cyn y gystadleuaeth).

Cystadleuwyr 16 oed neu iau i osod a rhoi rhesymau ar un cylch o bedwar o wartheg.

SYLWER

Caiff pob adran eu beirniadu ar bwyntiau'r brîd.

AMSERU

Caniateir 15 munud ar gyfer arolygiad.

RHESYMAU

Caniateir dwy funud i bob cystadleuydd gyflwyno eu rhesymau. Cosbir cystadleuwyr sy'n mynd dros yr amser penodedig ar raddfa o ddau farc am bob 15 eiliad neu ran o hynny. Bydd y marciau yn cael eu tynnu o gyfanswm y gystadleuydd.

Caiff yr aelodau ond defnyddio'r cardiau a ddarperir gan CFFI Cymru yn ystod y gystadleuaeth.

COMPETITION 8

HOLSTEIN CATTLE STOCK JUDGING

TEAM

Four members (one 28, one 21, one 18 and one 16 years of age or under).

TASK

The 28 and 21 years of age and under competitors to place and give reasons on two rings of four cattle.

The 18 years of age and under competitor to place two rings of four cattle and give reasons on one ring (the ring to be specified prior to the competition).

The 16 years of age and under competitor to place and give reasons on one ring of four cattle.

NOTE

Cattle to be judged on breed points.

TIMING

15 minutes allowed for inspection.

REASONS

Each competitor will be allowed two minutes to state his/her reasons. Competitors who exceed this time limit will incur penalties at a rate of two marks for each 15 second or part thereof. The marks will be deducted from the competitor's total.

Members may only use cards supplied by Wales YFC during the competition.



CYSTADLEUAETH 9

CYSTADLEUAETH GWISGO FYNY

THEMA

Gwisg Genedlaethol Gwlad

TÎM

Dau aelod. (un 18 oed ac un 16 oed neu iau).

TASG

Dau aelod i wisgo i fyny Arweinydd Clwb / Aelod Hŷn yn darlunio Gwisg Genedlaethol Gwlad gan ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu'n bennaf.

NODIADAU

Yr holl wisgoedd i'w gwneud adeg y gystadleuaeth felly ni ellir gwneud unrhyw waith ymlaen llaw (Cosbir y timau os caiff y gwisgoedd eu gwneud ymlaen llaw neu os cânt eu llogi). Atgoffir timau na chaniateir unrhyw ategolion megis wigiau sydd wedi'u gwneud / eu prynu ymlaen llaw.

Ni ddylid defnyddio ffonau symudol wrth baratoi, cystadlu a gosod.

AMSER

Caniateir 1 awr.

SYSTEM FARCIO

Gwreiddioldeb	25
Gwaith Tîm	25
Defnydd o Ddeunyddiau Wedi'u Hailgylchu	25
Effaith Gyffredinol	25
CYFANSWM	100

COMPETITION 9

DRESSING UP COMPETITION

THEME

A Country's National Dress or Outfit

TEAM

Two members (One 18 years and one 16 years of age or under).

TASK

Two members to dress up a Club Leader / Senior member depicting a Country's National Dress using predominantly recycled materials.

NOTES

All costumes to be made on the day and therefore no work to be undertaken beforehand (Teams will be penalised if costumes have been made beforehand or if they have been hired). Teams are reminded that accessories such as wigs that have been made / purchased beforehand are therefore not permitted.

No mobile phones to be used during preparation, competition and setting up.

TIME

Time allowed – 1 hour.

SCALE OF MARKS

Originality	25
Teamwork	25
Use of Recycled Materials	25
Overall Effect	25
TOTAL	100



CYSTADLEUAETH 10

BARNU DEFAID WYNEBLAS CAERLŶR

TÎM

Pedwar aelod (Un 28, Un 21, Un 18 ac Un 16 oed neu iau).

TASG

Cystadleuwyr 28 a 21 oed neu iau i osod a rhoi rhesymau ar ddau gylch o bedwar o ddefaid.

Cystadleuwyr 18 oed neu iau i osod dau gylch o bedwar a rhoi rhesymau ar un cylch o bedwar o ddefaid (cylch i'w benodi cyn y gystadleuaeth).

Cystadleuwyr 16 oed neu iau i osod a rhoi rhesymau ar un cylch o bedwar o ddefaid.

NODIADAU

Caiff pob adran eu beirniadu ar bwyntiau'r brîd.

Gall defaid fod naill ai'n Draddodiadol neu'n Groes, ond rhaid i bob gylch fod â phedair dafad o'r un math.

AMSER

Caniateir 15 munud ar gyfer adolygiad a thrin a thrafod y defaid.

RHESYMAU

Caniateir dwy funud i bob cystadleuydd gyflwyno eu rhesymau. Cosbir cystadleuwyr sy'n mynd dros yr amser penodedig ar raddfa o ddau farc am bob 15 eiliad neu ran o hynny.

Caiff yr aelodau ond defnyddio'r cardiau a ddarperir gan CFFI Cymru i wneud nodiadau.

COMPETITION 10

BLUEFACED LEICESTER SHEEP JUDGING

TEAM

Four members (one 28, one 21, one 18 and one 16 years of age or under).

TASK

The 28 and 21 year old and under competitors to place and give reasons on two rings of four sheep.

The 18 years old and under competitor to place two rings of four sheep and give reasons on one ring (the ring to be specified prior to the competition).

The 16 years old and under competitor to place and give reasons on one ring of four sheep.

NOTES

Sheep to be judged on breed points.

